

Cofnodion Cyfarfod Gweithgor Gilfach Iago a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe ar ddydd Iau, Awst 16^{eg}, 2018 am 6.00 yh.

Presennol

Cynghorwyr	P.H. Roberts	Mrs S. E. Thomas	Mrs K.D. L Davies
	R.A. Davies	C.J. Harris	I. RH. Llewelyn

351.

Adfer Mynediad i'r Cyhoedd i Gilfach Iago

Derbyniwyd llythyr oddiwrth Caroline Ferguson, Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad, ynghylch adfer mynediad i'r cyhoedd ar draws y cyn safle glo brig.

Roedd Celtic Energy wedi cyflwyno cais cynllunio newydd (E/25759) yn 2011 i amrywio amodau'r cais cynllunio gwreiddiol parthed ag adfer yr heolydd. Cymeradwywyd y cais cynllunio hwn yn ddiweddar oherwydd bod y Cyngor Cymuned wedi dileu ei wrthwynebiad, a hynny ar sail y ffaith bod yr amodau amrywiol hyn yn dderbyniol o ystyried y budd potensial i'r gymuned unwaith bod Celtic Energy wedi cwblhau'r gwaith adfer y mae'r caniatâd yn gofyn iddynt ei wneud.

Mae'r caniatâd cynllunio, fel y'i roddwyd, yn pennu bod rhaid adfer yr heolydd cyhoeddus a oedd yn arfer croesi'r safle ar ffurf llwybrau ceffyl. Yn ychwanegol at hyn, bydd y rhwymedigaeth sydd eisoes yn bodoli yn unol â'r cais cynllunio C6/190B a roddwyd yn 2001, i adfer yr holl lwybrau cyhoeddus drwy'r safle, yn ail-agor rhwydwaith arwyddocaol a gwerthfawr o fynediad adloniadol cyhoeddus yn y gymuned.

Rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin wneud cais i Lys yr Ynadon i ailddosbarthu'r heolydd yn lwybrau ceffyl, a bydd hyn yn cynnwys creu un llwybr ceffyl newydd, ac amrwio cwrs saith o'r llwybrau. Mae'r Cynghorwyr wedi derbyn cynllun o'r safle fel eu bod yn gallu ei ystyried.

Argymhellodd yr Aelodau a oedd yn bresennol bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi ailddosbarthu'r heolydd sy'n croesi Gilfach Iago i statws llwybrau ceffyl, ac i wneud newidiadau i saith o'r llwybrau fel eu bod yn dilyn tirwedd a nodweddion y tir adferedig er mwyn cynnwys y datblygiadau diweddar.